| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Hydref 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones – Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r
 (i) Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol ar gyfer 2025/26 i'r Aelodau; a
 (ii) cheisio cymeradwyaeth i ymgynghori â'r cyhoedd ar ein hamcanion gwella a llesiant arfaethedig.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 O dan Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru 2016, un o'r prif amcanion ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yw mynd ati'n barhaus ac mewn modd cynaliadwy i leihau risg a gwella diogelwch dinasyddion a chymunedau.

3 Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub wneud trefniadau ar gyfer gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau, drwy osod amcanion gwella iddo'i hun ym mhob blwyddyn ariannol yn erbyn o leiaf un o saith swyddogaeth. Mae'n rhaid ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch yr amcanion hyn.

4 Mae'n ofyniad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i Gyrff Cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant ac adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant.

5 Mae Cylchlythyr Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru rhif: W-FRSC(2024)06 yn nodi y gellir cyflawni'r dyletswyddau o dan Fesur 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 trwy gyhoeddi un adroddiad.

6 Talwyd sylw i'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, ac ymgynghorwyd â'r undebau llafur perthnasol yng nghamau ffurfiannol y broses gosod amcanion. Mae'r undebau llafur

hefyd wedi cael fersiwn drafft o Gynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26 a disgwylir eu hymateb i'r amcanion arfaethedig. Rhoddir gwybod i'r Awdurdod Tân ac Achub am unrhyw ymateb yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus.

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

7 Nid yw Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26 wedi bod gerbron y panel gweithredol oherwydd y cyfyngiadau amser yn sgil sicrhau bod y cylch cynllunio yn cyd-redeg â'r broses o bennu cyllideb.

**ARGYMHELLIAD**

8 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

(i) Nodi cynnwys yr adroddiad; a

(ii) Chymeradwyo Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol drafft 2025/26 ar gyfer ymgynghori ag Aelodau'r Awdurdod Tân, staff, undebau llafur perthnasol, rhanddeiliaid a'r cyhoedd cyn eu cymeradwyo mewn cyfarfod o'r Awdurdod Tân ym mis Mawrth 2025.

**CEFNDIR**

9 Wedi iddynt gael eu cymeradwyo, bydd yr amcanion sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26 yn sail i weithgarwch yr ail flwyddyn tuag at gyflawni'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol pum mlynedd 2024-29, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024.

**GWYBODAETH**

10 Mae'r gwaith o ddatblygu amcanion gwella a llesiant, ac ymgynghori arnynt wedyn, wedi'i symud ymlaen er mwyn sicrhau bod y gwaith o osod amcanion yn cyd-redeg â chylch cynllunio'r gyllideb. Dylai'r ffaith eu bod yn cyd-redeg liniaru unrhyw wariant sylweddol yn ystod y flwyddyn, yn gysylltiedig â chyflawni'r amcanion, nad oedd wedi'i ragweld.

11 Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar wefan yr Awdurdod Tân ac Achub, gan ddefnyddio rhaglen Microsoft 365, a bydd yn cael ei gynnal rhwng 22 Hydref ac 16 Rhagfyr 2024.

12 Bydd yn cael ei gefnogi gan gyfathrebu mewnol ac allanol gan gynnwys defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.

13 Y bwriad yw y bydd Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol drafft ar gyfer 2025/26 yn dilyn trefn ymgynghori fewnol ac allanol y Gwasanaeth ac yn cynnwys Aelodau'r Awdurdod Tân, y cyhoedd, staff a rhanddeiliaid perthnasol eraill i roi adborth, cyn ei gyhoeddi yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod Tân ym mis Mawrth 2025.

14 Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael yn ogystal â fformat hygyrch, hawdd ei ddeall.

15 Paratowyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Economaidd-Gymdeithasol a chaiff ei gyhoeddi ynghyd â'r dogfennau ymgynghori.

16 Mae Asesiad Effaith Diogelu Data wedi'i gwblhau mewn cysylltiad ag unrhyw ddata personol a fydd yn cael ei gasglu yn ystod yr ymgynghoriad.

17 Unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben bydd yr adborth yn cael ei asesu a bydd unrhyw newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i Gynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26.

18 Bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i Banel Gweithredol yr Awdurdod Tân ar 17 Mawrth 2025 i'w chymeradwyo a'i dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio.

19 Bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod Tân llawn i'w chymeradwyo a'i chyhoeddi ym mis Ebrill 2025.

20 Ar ôl iddo gael ei gyhoeddi, bydd cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26 yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024/29 a Chynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26 yn cynnwys datganiad Llesiant fel sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf. |
| **Cyllideb** | Dylai'r ffaith bod y cylch gosod amcanion blynyddol yn cyd-redeg â chylch cynllunio'r gyllideb liniaru unrhyw wariant sylweddol yn ystod y flwyddyn, yn gysylltiedig â chyflawni'r amcanion, nad oedd wedi'i ragweld. |
| **Cyfreithiol** | Mae Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26 wedi'i baratoi yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.<br>GDPR – Mae Asesiad Effaith Diogelu Data wedi'i gwblhau a'i adolygu gan y Swyddog Diogelu Data. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Paratowyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a bydd yn cael ei gyhoeddi ar adeg ymgynghori a chyhoeddi. |
| **Risgiau** | Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol yn cefnogi trefniadau rheoli risg yr Awdurdod. |